| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **4 CHWEFROR 2025** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2025/26** |
| PWRPAS: | **I gyflwyno’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a’r Uned Buddsoddi.** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cyllideb 2025/26 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a’r Uned Buddsoddi.

1.2 Cymeradwywyd y gyllideb gan y Pwyllgor Pensiynau yn eu cyfarfod ar 27ain o Ionawr 2025.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

| | Terfynol 2024/25 £ | Chwyddiant £ | Addasiadau £ | Cyllideb 2025/26 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 982,800 | 43,280 | (1,350) | 1,024,730 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 1,440 | 0 | 0 | 1,440 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 298,220 | 6,590 | 0 | 304,810 |
| Gwasanaethau Canolog | 138,810 | 4,160 | 0 | 142,970 |
| **Cyfanswm** | **1,421,270** | **54,030** | **(1,350)** | **1,473,950** |

2.1 <u>Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth</u>

Mae’r gyllideb ar gyfer yr adain yma’n cynnwys 23 swydd llawn amser (4 ohonynt yn swyddi dros dro) a 2 swydd rhan amser.

Oherwydd newidiadau parhaus yn rheoliadau'r CPLlL, rydym wedi diweddaru nifer fach o swydd disgrifiadau yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae'r diweddariadau hyn yn mynd drwy'r broses arfarnu swyddi.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd y newidiadau hyn yn arwain at gynnydd mewn cyflogau. Fodd bynnag, os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i ni ystyried cynnydd yn y gyllideb i ddarparu ar gyfer yr addasiadau hyn.

2.2 <u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>

Mae’r gyllideb yma’n cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a chostau meddalwedd.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau y Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

## 3. UNED BUDDSODDI

| | Terfynol 2024/25 £ | Chwyddiant £ | Addasiad £ | Cyllideb 2025/26 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 133,060 | 5,810 | 0 | 138,870 |

3.1 Gweithwyr

Mae'r adain yma wedi'i leoli o fewn y brif uned Cyllid Canolog, felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi'i rannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (90%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (85%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (50%)

## 4. COSTAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU, RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

4.1 Nid oes cyllideb yn cael ei osod ar y pwynt yma gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.